Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Rôl a Diben Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiynydd

Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon yn ei Swyddfa. Er mwyn sicrhau ei weithrediad effeithiol, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi'i sefydlu. Mae'r pwyllgor hwn yn adolygu ac yn herio gwybodaeth gan staff, archwilwyr mewnol ac allanol, gan gynnig cymorth ymgynghorol i'r Comisiynydd.

Rôl y Pwyllgor yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)

Mae'r Comisiynydd wedi anfon neges glir i gyrff cyhoeddus bod angen newid sylweddol yn y ffordd y maent yn gweithio er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf. Nid yw busnes fel arfer yn opsiwn ac mae'n rhaid i'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau ym mhopeth a wna cyrff cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i'w Swyddfa ei hun arfer yr hyn a bregethir yn allanol ac mae hyn yn ymestyn i gynllun a rôl y Pwyllgor hwn.

Felly, bydd y Pwyllgor yn ymdrechu i osod yr enghraifft orau bosibl o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn y ffordd y mae'n gweithio ac yn y ffordd y mae'n rhyngweithio â Swyddfa'r Comisiynydd. Wrth i'r Pwyllgor gael mwy o brofiad o weithio mewn ffordd sy'n 'gweithredu yn ogystal â thrafod' ar y Ddeddf, bydd yn addasu ac yn adolygu'r ffordd y mae'n gweithio.

Aelodaeth

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys Cadeirydd a phedwar neu fwy o aelodau annibynnol. Bydd gan o leiaf un aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol diweddar a pherthnasol digonol i alluogi'r Pwyllgor i ddadansoddi'r datganiadau ariannol a deall materion sy'n ymwneud ag archwilio a rheolaeth ariannol.

Penodir aelodau am gyfnod o bedair blynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gellir eu hailbenodi am hyd at bedair blynedd arall. Bydd cynllunio ar gyfer olyniaeth er mwyn osgoi newid ar raddfa gyfan yn ystyriaeth allweddol wrth bennu hyd penodiadau dilynol. Mae ailbenodiadau pellach yn debygol o fod ar sail eithriad yn unig. Mae aelodau'n cael eu talu ar gyfradd ddyddiol a bennir gan y Comisiynydd ac yn cael eu had-dalu am eu costau teithio a chynhaliaeth, yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Comisiynydd.

Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiynydd ar:

- Digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a chynnwys y Datganiad Llywodraethu.
- Y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r Comisiynydd at yr archwilwyr allanol.
- Y gweithgaredd a gynllunnir a chanlyniadau'r archwiliad mewnol ac allanol.
- Digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheoli'r archwiliad allanol.
- Cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio.
- Polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.
- Bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiynydd.

Gall y Pwyllgor gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n hwy na blwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol a chaffael cyngor ad-hoc arbenigol ar draul y sefydliad, yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiynydd.

Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Allanol fynediad cyfrinachol ac am ddim at Gadeirydd y Pwyllgor.

Gall y Pwyllgor gyfethol aelodau ARAC dan hyfforddiant (a grëwyd i roi profiad bwrdd i bobl iau) am gyfnod o ddwy flynedd.

Cyfarfodydd

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Gall y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol. Bydd lleiafswm o ddau aelod o'r Pwyllgor yn bresennol er mwyn i'r cyfarfod gael ei ystyried â chworwm. Fel arfer bydd y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd, Arwr Corfforaethol [ysgrifenyddiaeth], y Pennaeth Cyllid, ynghyd â chynrychiolwyr Archwilio Mewnol ac Allanol yn mynychu cyfarfodydd. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddogion eraill o'r sefydliad fod yn bresennol i'w gynorthwyo gyda'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol. Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rhai sy'n mynychu fel arfer ond nad ydynt yn aelodau i adael er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar faterion. Bydd pob cyfarfod yn dechrau gyda sesiwn heb bresenoldeb y Rheolwyr a'r Comisiynydd. Gall y Comisiynydd ofyn i'r Pwyllgor gynnull cyfarfodydd pellach i drafod materion lle mae angen cyngor.

Mae'r materion sydd i'w hadrodd i'r Pwyllgor wedi'u nodi yn Atodiad A ac mae rhaglen ddangosol o waith wedi'i nodi yn Atodiad B.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Materion eraill

Gall y Comisiynydd, o bryd i'w gilydd, hefyd ofyn i aelodau'r Pwyllgor gynghori ar faterion strategol a materion eraill sy'n ymwneud â'u cylch gwaith. O dan amgylchiadau o'r fath ni chaiff yr aelodau o dan unrhyw amgylchiadau weithredu ar ran y Comisiynydd mewn swyddogaeth weithredol neu reoli.

Bydd yr aelodau'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor am enghreifftiau o gyngor a ddarperir yn ei gyfarfod nesaf.

Adrodd

Bydd y Pwyllgor yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiynydd yn crynhoi'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ac wedi'i amseru i gefnogi cwblhau'r Cyfrifon Blynyddol Statudol a'r Datganiad Llywodraethu.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Office of the Future Generations Commissioner
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CF11 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Atodiad A

Ar gyfer pob cyfarfod bydd y Pwyllgor (o leiaf wythnos cyn y cyfarfod) yn cael:

- Adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol i'r Gofrestr Risg
- Adroddiad cynnydd gan Archwilio Mewnol yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd o'i gymharu â'r gwaith a gynlluniwyd, materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, yr adroddiadau archwilio mewnol diweddaraf ac ymatebion y rheolwyr i argymhellion archwilio.
- Adroddiad cynnydd gan yr Archwilwyr Allanol yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Fel y bo'n briodol, bydd y Pwyllgor hefyd yn cael:

- Cynigion ar gyfer Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol.
- Y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r cynllun gwaith blynyddol.
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.
- Adroddiad blynyddol drafft a chyfrifon swyddfa'r Comisiynydd.
- Y Datganiad Llywodraethu drafft.
- Adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu.
- Llythyr rheoli'r Archwilwyr Allanol.
- Adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio.
- Adroddiad ar gydweithio rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol.
- Y polisïau cyfrifyddu, y Cyfrifon, ac Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y Comisiynydd at yr archwilwyr allanol.
- Y gweithgaredd a gynllunnir a chanlyniadau'r archwiliad mewnol ac allanol.
- Digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys llythyr rheoli'r archwiliad allanol.
- Sicrwydd ynghylch y gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer swydd y Comisiynydd.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Tramshed Tech, Stryd Pendyris, Caerdydd, CF11 6BH
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Office of the Future Generations Commissioner
Tramshed Tech, Pendyris Street, Cardiff, CF11 6BH
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

• Cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio.

• Polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

• Rhestr o gamau gweithredu tendr sengl a/neu wyriadau oddi wrth weithdrefnau tendro'r Comisiynydd dros y trothwy £5,000.

• Rhestr o unrhyw golledion neu daliadau arbennig.

Atodiad B

RHAGLEN WAITH DANGOSOL

Cyfarfod y Gwanwyn (Ebrill)	Sylwadau ar gyfrifon y flwyddyn sydd newydd ddod i ben cyn eu cwblhau a'u cyflwyno i'w harchwilio
	Rhoi cyngor ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben, i'w gyflwyno ochr yn ochr â'r cyfrifon terfynol
	Adolygu cynllun gwaith cyfnodol terfynol Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ddechrau
	Adolygu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor
	Cyfarfod preifat i'w gynnal rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn dechrau'r prif gyfarfod.
Cyfarfod Haf (Gorffennaf)	Ystyried barn Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ddod i ben
	Ystyried barn (datblygol) Archwilio Allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ddod i ben
	Trafod goblygiadau canlyniad adolygiad y Swyddog Cyfrifyddu o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu
	Cyfarfod preifat i'w gynnal rhwng yr Archwilwyr Allanol ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg cyn dechrau'r prif gyfarfod.
Cyfarfod yr Hydref	Ystyried adroddiad canol blwyddyn ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Archwilio Mewnol

(Hydref)	Ystyried y llythyr rheoli Archwilio Allanol ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o waith interim/yn ystod y flwyddyn gyfredol yr Archwilwyr Allanol
	Ystyried unrhyw gamau sy'n weddill yn deillio o waith archwilio mewnol ac allanol y flwyddyn flaenorol
Cyfarfod Gaeaf (Ionawr)	Cynghori ar y strategaeth archwilio mewnol a'r cynllun gwaith cyfnodol ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol newydd
	Ystyried meysydd lle bydd y Pwyllgor yn arbennig yn hyrwyddo cydweithrediad rhwng archwilwyr a chyrff adolygu eraill yn y flwyddyn i ddod
	Ailedrych ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg gan archwilwyr ac adolygu camau gweithredu mewn ymateb i lythyr rheoli'r Archwilwyr Allanol
	Ystyried effeithiolrwydd y Pwyllgor ei hun yn ei waith.